



Cylchlythyr Haf Awst 2020

Annwyl Landlord/Asiant

Achubwch ar y cyfle i ddysgu mwy am weithgareddau Rhentu Doeth Cymru a darllenwch ganllawiau Llywodraeth Cymru wrth i gyfyngiadau COVID yn y farchnad tai ddechrau llacio.

Ymhlith yr uchafbwyntiau mae:

- Cyfnodau gorchmynion troi allan estynedig
- Ailagor ein marchnad tai yng Nghymru
- Yr hyn a ddywedoch wrthym am effaith COVID arnoch
- Cynllun hysbysu'n gynnar am ddyled
- Cyfraith achosion newydd: Gwahardd tenantiaid adran y gwasanaethau cymdeithasol bellach yn anghyfreithlon

RHEOLIADAU

Estyn cyfnod gorchmynion troi allan gofynnol i 6 mis



O dydd **Gwener 24 Gorffennaf**, rhaid i Landlordiaid ac Asiantau yng Nghymru roi o leiaf 6 mis o rybudd i denantiaid wrth gyflwyno gorchmyn Adran 21 neu Adran 8 (ac eithrio'r rhai sydd ar sail ymddygiad gwrthgymdeithasol y mae'r cyfnod rhybuddio o 3 mis cyfredol yn berthnasol iddynt o hyd).

Daw'r newidiadau o ganlyniad i argyfwng iechyd y cyhoedd a byddant yn berthnasol i gorchmynion a gyflwynir tan 30 Medi 2020.

Gall landlordiaid ddod o hyd i atebion i gwestiynau cyffredin [yma](#).

[Cwestiynau cyffredin >](#)

CANLLAWIAU CORONAFAIRWS

Y farchnad tai yng Nghymru yn ail-agor



Mae Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau'r Coronafeirws) (Cymru) 2020 wedi'u diwygio gan alluogi'r rheini sy'n bwriadu symud ahref i wneud hynny.

Caniateir y gweithgareddau canlynol o **ddydd Llun 27 Gorffennaf**:

- symud cartref
- marchnata eiddo preswyl i'w werthu neu'i rentu
- paratoi eiddo preswyl ar gyfer meddiannydd newydd
- mynd i edrych ar eiddo (wedi'i feddiannu neu'n wag)
- ymweliadau ag asiantaethau gosod tai neu werthu tai, swyddfeydd gwerthu datblygwyr neu gartrefi enghreifftiol at ddibenion prynu, gwerthu, gosod neu rentu

Fodd bynnag, fe'ch anogir i gyflawni cynifer â phosibl o'r gweithgareddau hyn ar-lein neu o bell yn y lle cyntaf, ac i sicrhau ei bod yn ddiogel mynd i mewn i'r eiddo cyn i unrhyw un ddod i edrych ar yr eiddo. Gallwch ddod o hyd i ganllawiau manwl [yma](#).

[Canllawiau >](#)

YMWCHIL

COVID-19: Yr effaith arnoch chi



Ymchwiliodd arolwg diweddar a gynhaliwyd gan Rhentu Doeth Cymru a Llywodraeth Cymru i effeithiau argyfwng iechyd y cyhoedd ar landlordiaid a thenantiaid yng Nghymru.

Dangosodd ein canlyniadau rhwng 23 Mawrth a 29 Mai:

- Dywedodd 57% o landlordiaid fod eu holl denantiaid wedi talu eu rhent yn llawn
- Dywedodd 73% o landlordiaid nad oedd eu tenantiaid wedi gofyn am seibiant na gostyngiad o ran eu rhent
- Dywedodd 27% eu bod naill ai'n gallu cyflawni cais am ostyngiad mewn rhent neu y byddent yn gallu gwneud hynny pe bai'r tenant yn gofyn
- Dywedodd 23% eu bod naill ai'n gallu rhoi seibiant o ran talu rhent neu y byddent yn gallu gwneud hynny pe bai'r tenant yn gofyn

Cliciwch [yma](#) i weld y canlyniadau llawn.

[Gweld y canlyniadau >](#)

MENTRAU'R SECTOR RHENT PREIFAT

Sicrhau cyllid i helpu tenantiaid i reoli eu dyledion



Yn ddiweddar, mae Llywodraeth Cymru wedi lansio cynlluniau ar gyfer Cynllun Rhybuddio Cynnar ar gyfer ôl-ddyledion rhent a dyledion eraill yn y Sector Rhentu Preifat.

Bydd y cynllun yn rhoi mynediad ychwanegol i denantiaid at y cyngor, y cymorth a'r help ymarferol sydd eu hangen arnynt i reoli eu hymrwymadau ariannol. Bydd hyn yn cynnwys cymorth i sefydlu cynlluniau ad-dalu gyda'r landlord neu'r asiantaeth gosod tai i fynd i'r afael ag unrhyw ôl-ddyledion rhent i leihau'r risg o golli eu cartref. Manylion pellach i ddilyn.

[Darllen yr erthygl >](#)

CYFRAITH ACHOSION

Dyfarnu bod gwahardd hawlwy'r adran y gwasanaethau cymdeithasol yn anghyfreithlon



Cadarnhaodd dyfarniad llys diweddar nad oedd unrhyw bolisïau adran y gwasanaethau cymdeithasol a roddir ar waith gan landlordiaid ac asiantau'n anghyfreithlon.

Cofiwch, dan God Ymarfer Rhentu Doeth Cymru, fod rhaid i landlordiaid ac asiantau trwyddedig gydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010.

Mae gwahaniaethu sy'n effeithio ar nodweddion a ddiogelir yn anghyfreithlon a gallai beryglu eich trwydded. Cliciwch [yma](#) i weld y cod.

[Cod ymarfer >](#)

DOLENNI DEFYNYDDIOL

Cyngor Tai

[Rhentu Doeth Cymru - tudalen COVID-19](#)
[Llywodraeth Cymru - Canllawiau i landlordiaid ac asiantau](#)
[Llywodraeth Cymru - Canllawiau i denantiaid](#)
[Llywodraeth Cymru - Cymorth i tenantiaid](#)